# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yn CEF Caerdydd

## Ar gyfer blwyddyn adrodd 1 Medi 2022 i 31 Awst 2023

Cyhoeddwyd Chwefror 2024

# Cynnwys


| **Adrannau rhagarweiniol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Pwyntiau allweddol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 10 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 12 |
| 6. | Iechyd a lles | 16 |
| 7. | Cynnydd ac ailsefydlu | 20 |
| **Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol** | | |
| Ystadegau'r Bwrdd | | 26 |
| Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol | | 26 |
| **Atodiad A** | | |
| Rhestr o ddarparwyr gwasanaethau | | 27 |


**Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol ar www.imb.org.uk**

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda Gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol.
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae Carchar Ei Fawrhydi Caerdydd yn garchar hyfforddi lleol categori B yng nghanol y ddinas. Agorodd y carchar yn 1832, ac mae rhan fawr o'r llety'n dal i gynnwys tair adain o'r oes Sioraidd. Fe wnaeth rhaglen adnewyddu fawr yn 1996 arwain at agor tair adain llety newydd. Erbyn hyn mae saith adain (A, B, C, D, E, F a HCC) gyda thair uned ychwanegol yn ffurfio rhan o'r adenydd hynny (A1, B1 ac F1). Mae'r carchar hefyd yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau eraill, gan gynnwys campfa, caplaniaeth, cyfres o weithdai ac ystafelloedd dosbarth. Agorwyd canolfan gofal iechyd newydd ym mis Mai 2008 ac mae'n cynnwys 20 gwely[1].

Mae'r carchar yn gwasanaethu de-ddwyrain Cymru a chymoedd de Cymru i raddau helaeth, er bod nifer cynyddol o garcharorion yn cael eu trosglwyddo o garchardai yn Lloegr. Mae'n gwasanaethu carcharorion sy'n bwrw dedfrydau tymor byr, carcharorion ar remand a charcharorion sy'n aros am ddedfryd yn bennaf. Mae gan y carchar lety arferol ardystiedig o 534 (nifer y carcharorion y gall carchar ei ddal heb fod yn orlawn) a chapasiti gweithredu o tua 780 (uchafswm nifer y carcharorion y gellir eu dal heb risg ddifrifol i ddiogelwch, diogeledd, trefn dda a chynnal y drefn gynlluniedig yn briodol). Mae'r rhan fwyaf o garcharorion mewn celloedd fesul dau.

**Fel ar draws yr holl ystâd carchardai yng Nghymru a Lloegr, mae Carchar Caerdydd wedi wynebu pwysau sylweddol a pharhaus o ran poblogaeth yn ystod y cyfnod adrodd.** Rhwng 1 Medi 2022 a 31 Awst 2023 roedd 7,677 o dderbyniadau, 1,938 rhyddhad a 1,195 o drosglwyddiadau i sefydliadau eraill. Mae'r pwysau hwn yn edrych yn debygol iawn o barhau oni bai fod camau sylweddol yn cael eu cymryd yn genedlaethol. Cyflwynwyd cynllun rhyddhau cynnar ym mis Hydref 2023 ond mae hynny y tu allan i gwmpas yr adroddiad blynyddol hwn.

Mae'r drefn arferol yn cynnwys addysg amser llawn, cyflogaeth yng ngweithdai'r carchar, a chyrsiau hyfforddi. Mae uned ailsefydlu yno hefyd, sy'n cynnig cwrs datblygiad cymdeithasol personol a chyrsiau seiliedig ar waith i garcharorion.

[1] Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn wybodaeth reoli leol. Maent yn adlewyrchu sefyllfa'r carchar adeg adrodd, ond gallant newid yn dilyn dilysu pellach ac felly efallai na fyddant bob amser yn gyson ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 3. Pwyntiau allweddol

### 3.1 Prif ganfyddiadau

### Diogelwch

- Roedd hunan-niweidio yn parhau i fod yn bryder drwy gydol y flwyddyn, ond mae'r Bwrdd yn cydnabod y flaenoriaeth a roddir i'r broses asesu, gwaith tîm gofal yn y ddalfa (ACCT) mewn achosion o'r fath.
- Tua diwedd y flwyddyn gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o sylweddau anghyfreithlon a digwyddiadau cysylltiedig o ran iechyd a thrais.
- Ar y pwynt canol blwyddyn, gwelwyd cynnydd nodedig mewn trosglwyddiadau y tu allan i'r ardal oherwydd pwysau poblogaeth ar draws ystâd y carchardai. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd roedd y pwysau cynyddol ar boblogaeth y carchar yn ystod y cyfnod adrodd yn destun pryder difrifol.

### Triniaeth deg a dyngarol

- Croesawodd y Bwrdd ostyngiad yn y niferoedd cyffredinol a oedd yn cael eu lletya yn yr uned gofal a gwahanu (CSU) nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer anghymesur o garcharorion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu lletya yn y CSU. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn nodi, o blith y rhain, cafodd 5 carcharor eu cadw ar wahân 4 gwaith neu fwy.
- Oherwydd oedran y carchar, mae problemau llety (fel diffyg dŵr poeth, tymheredd yr adenydd naill ai'n rhy boeth neu'n oer yn dibynnu ar y tywydd, fermin) yn parhau i fod yn broblem nodedig yn ystod 2022-23.
- Mae eiddo coll wedi bod yn broblem a gofnodwyd yn aml yn ystod y flwyddyn, oherwydd symudiadau mewnol yng Ngharchar Caerdydd a rhwng carchardai.
- Er gwaethaf ymrwymiad y carchar i'r cynllun gweithiwr allweddol, mae cydymffurfedd wedi amrywio oherwydd y galw ehangach am staff h.y. prinder, salwch a dyletswydd ar wahân. Felly, mae gwaith allweddol yn dal yn destun pryder i'r Bwrdd.

### Iechyd a lles

- Gwnaed gwelliannau wrth ymateb i ofynion iechyd a lles carcharorion, er bod darparu meddyginiaeth yn dal i ymddangos mewn ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol (sylwadau ysgrifenedig i'r Bwrdd). Mae naill ai ddim yn cael ei ddarparu'n brydlon neu mae meddyginiaeth a ragnodir yn y gymuned naill ai'n cael ei newid neu ei gwtogi.
- Agorodd yr Hyb Niwroamrywiaeth ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn ogystal â'r uned byw heb sylweddau dan gymhelliant, yn 2022-23 ac mae'n ymddangos ei bod yn gwneud cyfraniad cadarn at gynnydd carcharorion sy'n cael eu cefnogi gan yr unedau hyn.
- Mae'r Bwrdd yn croesawu cyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr sy'n garcharorion ar draws y carchar. Maent yn weladwy ac ar gael i gefnogi eu cymheiriaid mewn sawl ffordd, gan gynnwys fel gwrandawyr y Samariaid, fel cynrychiolwyr adain sy'n cyfrannu at fforymau carcharorion, fel mentoriaid ar adain sy'n helpu eu cyd-garcharorion gyda gwaith papur a materion eraill ac fel cymheiriaid i helpu i sicrhau bod lletygarwch yn rhedeg yn ddidrafferth yn y neuadd ymweliadau.

## Cynnydd ac ailsefydlu

- Mae llety ar ôl rhyddhau yn dal yn broblem, nid yw carcharorion yn cael cymorth yn ddigon cynnar a gall cymorth fod yn ddryslyd ar adegau, sy'n golygu nad oes gan rai carcharorion lety wedi'i drefnu ar ôl cael eu rhyddhau. Nododd arolwg y Bwrdd Monitro Annibynnol o garcharorion ar y mater hwn nad oedd gan fwy na thraean drefniant llety ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn nodi bod Carchar Caerdydd wedi perfformio yn y traean uchaf o'r holl garchardai derbyn mewn perthynas â llety ar ôl rhyddhau, gyda dros 80% o ganlyniadau cadarnhaol wedi'u cofnodi ar gyfer llety ar ôl rhyddhau yn ystod y cyfnod adrodd.
- Nid oes digon o staff yn yr uned rheoli troseddwyr (OMU) o hyd; problem ers 2021 i 2022 o leiaf. Mae problemau tebyg yn berthnasol i'r tîm ailsefydlu. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y staff hyn yn cael eu cyflogi gan gangen Prawf Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, nid yn uniongyrchol gan y Carchar.
- Mae trefnu ymweliadau wedi bod yn broblem ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn, yn bennaf ar gyfer trefniadau a wneir dros y ffôn. Mae'r IMB wedi monitro'r mater hwn yn benodol yn dilyn ceisiadau a dderbyniwyd a thrafodaethau gydag ymwelwyr yn ystod y cyfnod adrodd ac wedi adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Llywodraethwr a'r ganolfan yn Birmingham lle mae'r llinell trefnu yn cael ei gweinyddu.

### 3.2 Prif feysydd datblygu

### *I'R GWEINIDOG*

- O ystyried y materion sy'n gysylltiedig â strwythur a seilwaith Sioraidd y carchar, pa gamau a gymerir i wella amodau sylfaenol fel darparu dŵr poeth yn gyson a'r gallu i reoli amrywiadau tymheredd?
- Mae'r oedi o ran cliriadau fetio wedi cael effaith fawr ar y gallu i recriwtio a phenodi staff, yn enwedig mewn gofal iechyd, OMU ac adsefydlu, yn ogystal ag asiantaethau cymorth sy'n gweithio yn y carchar. Beth all y Llywodraeth ei wneud i gyflymu'r broses hon i sicrhau bod modd cyflawni a chynnal y cyflenwad staffio angenrheidiol tra nad yw diogelwch yn cael ei beryglu?

### *I'R GWASANAETH CARCHARDAI*

- Mae swyddi gwag parhaus mewn OMU ac adsefydlu a mae'r pwysau sy'n deillio o hynny ar staff a charcharorion yn parhau i fod yn bryder. Pa ymdrechion y mae'r gwasanaeth carchardai/prawf yn eu gwneud i recriwtio ar gyfer y swyddi hyn?
- Ers canoli trefniadau ymweliadau, mae'r gwasanaeth ffôn wedi bod yn gyson wael, gan achosi problemau parhaus i deuluoedd carcharorion. Pa gamau y gellid eu cymryd yn genedlaethol i ddatrys y materion hyn?
- Er bod gwerthfawrogi ffabrig safle Carchar Caerdydd yn chwarae rhan fawr yn hyn, beth ellir ei wneud i fynd i'r afael â charcharorion heb fynediad at le y tu allan i'r gell i fwyta bwyd, sydd ar hyn o bryd yn golygu bod yn rhaid i ddau ddyn fwyta gyda thoiled a rennir yn y gofod?

- Pa ystyriaeth y gellid ei rhoi i wella ymwybyddiaeth ac ymarfer swyddogion o anghenion carcharorion trawsryweddol wrth i'r boblogaeth drawsryweddol mewn carchardai ar draws yr ystâd dyfu?

***I'R BWRDD IECHYD***

- Cynhaliwyd y dadansoddiad diwethaf o anghenion iechyd yng Ngharchar Caerdydd yn 2017. A fydd y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys?
- O ystyried y ceisiadau mynych a dderbynnir gan y Bwrdd ynghylch meddyginiaeth ar bresgripsiwn, a oes modd ystyried sut y gellir lleihau effaith newid neu derfynu meddyginiaeth arferol carcharorion, a sicrhau bod carcharorion yn cael eu cefnogi a'u hysbysu'n well drwy hyn?

***I'R LLYWODRAETHWR***

- Mae'n siomedig gweld bod eiddo coll rhwng ac o fewn carchardai yn parhau i fod yn broblem barhaus a sylweddol. Pa fesurau ymarferol pellach y gellir eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn?

### 3.3 Ymateb i'r adroddiad diwethaf

| Mater a godwyd | Ymateb a roddwyd | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Gweinidog**<br>Cynnydd yn nifer y carcharorion y mae angen eu trosglwyddo i sefydliadau iechyd meddwl – trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. | Cynghori ar "Gynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl" Llywodraeth Cymru, gan gynnwys archwilio darpariaeth ddiogel i gleifion mewnol a datblygu strategaethau. | Trosglwyddwyd 19 o garcharorion i unedau seiciatrig, sy'n debyg i'r flwyddyn flaenorol. Disgwylir cyhoeddi adolygiad thematig Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) o achos ac effaith oedi i gleifion sy'n cael eu cadw yn y carchar sydd angen gofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. |
| Y lefel gyfyngedig o gyswllt roedd troseddwyr a charcharorion sy'n wladolion tramor (FNOs) yn gallu ei chael gyda chynrychiolydd y Swyddfa Gartref. | Mae gan FNOs fynediad at Dimau Carchardai Mewnfudo'r Swyddfa Gartref; dylai mynediad fod o fewn 24 awr. Mae'r cyfeiriad at gapasiti staffio sy'n gysylltiedig â Covid-19 bellach wedi'i ddatrys. | Nid yw'r mater wedi cael ei godi i unrhyw raddau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru**<br>Diffyg darpariaeth llanw ar gyfer fferyllwyr.<br><br>Angen am fwy o oriau meddyg teulu.<br><br>Diffyg llety addas ar gael ar ôl rhyddhau. | Wedi'i gynnwys yn ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br><br>Nodwyd bod fferyllydd llawn amser wedi'i recriwtio.<br><br>Cynyddodd oriau meddyg teulu bum sesiwn ychwanegol yr wythnos, yn ogystal â sesiwn ychwanegol gan Gyfarwyddwr Clinigol.<br><br>Roedd y Tasglu Atal Digartrefedd a sefydlwyd yn ystod y pandemig i barhau; darparwyd cyllid 3 blynedd i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yng Nghymru i sefydlu prosiect Haen 3 Gwasanaethau Llety Cymunedol. | Mae'r fferyllfa wedi'i staffio'n llawn erbyn hyn.<br><br>Cyflwynwyd darpariaeth meddygon teulu o bell yn 3/2023; darpariaeth gwasanaethau meddygol cyffredinol y tu allan i oriau (GMS) wedi dechrau ym mis Awst 2023 gan ddefnyddio llinell gymorth CAV 24/7 [2]; bydd meddyg teulu newydd yn cael ei gyflwyno yn hydref 2023.<br><br>Mae canfyddiadau'r Bwrdd yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at y broblem barhaus o lety cyfyngedig ac amserol yn cael ei ddefnyddio gan garcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. |
| **Y Gwasanaeth Carchar**<br>Atebion tymor hir ar gyfer problemau seilwaith sy'n codi dro ar ôl tro, h.y. gwresogi, mynediad at deledu, llygod mawr.<br><br>Mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn/ pobl sydd â phroblemau symudedd. | Wedi'i gynnwys yn ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder.<br><br>Cyfeirir at raglenni adnewyddu a seilwaith a gweithgarwch rheoli plâu.<br><br>Cyfeirir at addasiadau yn y carchar, gan gynnwys uwchraddio cawodydd amrywiol a ramp i'r ardal addysg.<br><br>Darparwyd amlinelliad o'r adferiad ar ôl Covid-19 yng Ngharchar Caerdydd. | Mae problemau sy'n ymwneud ag amodau yn dal i barhau ac yn cael eu codi gan garcharorion.<br><br>Cell a chawod newydd eu hadnewyddu ar gyfer pobl anabl yn adain F, gyda ramp i fynd i mewn i'r adain. Adolygir y materion bob dau fis yn y fforwm anabledd.<br><br>Mae'r drefn wedi dychwelyd i'r arfer, a |

[2] Mae CAV 24/7 yn wasanaeth yng Nghaerdydd a'r Fro sy'n rhoi mynediad i gleifion sydd angen gofal brys, neu y tu allan i oriau, at glinigwyr sy'n gallu asesu symptomau'n briodol a threfnu i gamau ystyrlon gael eu cymryd.

| | | |
|---|---|---|
| Dychwelyd i'r drefn arferol ar ôl Covid-19.<br><br>Amnewid camerâu a wisgir ar y corff (BWCs). | Darparwyd diweddariad ar ddarparu BWCs erbyn mis Chwefror 2023. | phrinder staff yn unig yn tarfu ar hynny.<br><br>Cafodd BWCs eu hamnewid yng Ngharchar Caerdydd yn 2022-2023. |
| **Y Llywodraethwr**<br>Pwysau staffio yn yr hyb busnes.<br><br>Y nifer anghymesur o garcharorion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi'u labelu'n beryglus. Ymchwilio i unrhyw wahaniaethu ymddangosiadol yn erbyn carcharorion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. | Roedd hyn yn ymwneud yn benodol ag ansawdd yr ymweliadau a drefnwyd oherwydd trosiant staff gweinyddol. Yn dilyn hynny, cafodd y gwaith o drefnu ymweliadau ei roi ar gontract allanol i dîm pwrpasol yn Birmingham.<br><br>Mae'r asesiad ar gyfer 'perygl' yn algorithm a bennir gan drosedd, dedfryd a data arall. Nid oes elfen ethnigrwydd i hyn.<br><br>Mae unrhyw anghymesuredd yn cael ei archwilio bob mis yn y cyfarfod Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Ymchwilir i unrhyw anghymesuredd a ganfyddir a cheisir mynd i'r afael ag ef. Ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i ychwanegu: "Nid yw'r deuddeg mis diwethaf, sydd wedi cael eu harchwilio, yn dangos unrhyw niferoedd anghymesur." | Gwasanaeth wedi'i roi ar gontract allanol i dîm ymweliadau Birmingham.<br><br>Dim camau pellach.<br><br>Mae cyfarfodydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth misol yn parhau i adolygu unrhyw faterion a nodwyd drwy fonitro ystadegol. |

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

### 4.1 Derbyn a chynefino

**4.1.1** Mae'r Bwrdd yn gyson wedi gweld lefel uchel o broffesiynoldeb gan staff derbynfa yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r staff yn darparu gwybodaeth a chyngor clir i newydd-ddyfodiaid, gan ddilyn prosesau cydnabyddedig, ac maen nhw wedi cael eu gweld yn rhoi cymorth ychwanegol i garcharorion tro cyntaf sydd, yn ddealladwy, yn dangos ymddygiad agored i niwed wrth gyrraedd.

**4.1.2** Mae'r sesiynau cynefino a arsylwyd gan y Bwrdd wedi'u trefnu'n dda ac yn brydlon ac mae cynnwys mentoriaid cymheiriaid yn y broses gynefino yn cael ei groesawu a'i gydnabod fel arfer da.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niwed, marwolaethau yn y ddalfa

**4.2.1** Cafwyd un farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd, y deallwyd yr achoswyd gan yr hunan; disgwylir cwest. Cynigiwyd cymorth i staff a charcharorion a chysylltwyd yn briodol â'r teulu. Mae'r Bwrdd yn nodi'r gwelliant hwn o ran sicrhau amgylchedd mwy diogel, gan fod 5 marwolaeth wedi'u cofnodi yn y flwyddyn adrodd flaenorol.

**4.2.2** Roedd lefel y hunan-niweidio yn ystod y flwyddyn adrodd yn 374 o ddigwyddiadau, gyda nifer o garcharorion yn hunan-niweidio sawl gwaith. Dyma'r un lefel o hunan-niweidio ag a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol. Er bod unrhyw lefel o hunan-niweidio yn destun gofid, mae'r Bwrdd yn cydnabod y gwaith a'r gefnogaeth a roddir i'r carcharorion ac, wrth gymharu diogelwch Carchar Caerdydd â 7 carchar tebyg arall, Caerdydd oedd yr isaf o ran: ymosodiadau ar staff, yr ail isaf o ran ymosodiadau  carcharorion-ar-garcharor a'r ail isaf o ran hunan-niweidio ym mis Rhagfyr 2022 ac Ebrill 2023.

### 4.3 Trais a lleihau trais, hunanynysu

**4.3.1** Bu cynnydd o 12.5% yn lefel y digwyddiadau treisgar a gofnodwyd, gyda 160 yn cael eu hadrodd rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2022 (cyfartaledd o 13.3 o achosion), gan godi i 180 (cyfartaledd o 15 achos) yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r Bwrdd wedi sylwi ar nifer o'r digwyddiadau hyn lle rhoddwyd cymorth i garcharorion a staff i dawelu neu symud y carcharor i leoliad arall yn ddiogel. Mae staff a charcharorion wedi cael eu hanafu mewn nifer o'r achosion hyn, gyda rhai angen triniaeth yn yr ysbyty. Mae'r Bwrdd wedi nodi proffesiynoldeb staff wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn.

### 4.4 Defnyddio grym

**4.4.1** Roedd tair gwaith yn fwy o achosion o ddefnyddio grym (UoF) oherwydd diffyg cydymffurfio (h.y., ddim yn dilyn cyfarwyddiadau'r staff), o'i gymharu ag ymddygiad bygythiol/ymosodol, sef yr ail reswm uchaf dros UoF. Cynhelir adolygiad wythnosol o ddigwyddiadau a thrafodir pa mor briodol yw'r camau i nodi'r gwersi a ddysgwyd, unrhyw anghenion hyfforddi, camau pellach a gymerwyd lle bo angen a

chydnabyddiaeth o arfer da. Mae aelodau'r Bwrdd wedi monitro adolygiadau wythnosol ac wedi arsylwi arferion da a thrafodaethau cytbwys am yr achosion. Ym mis Awst 2023, o blith 42 achos o UoF; cafodd 22 eu dychwelyd i'w cell gan ddefnyddio gafaelion tywys.

**4.4.2** Yn gyffredinol, mae staff bellach yn defnyddio camerâu corff (BWCs), yn enwedig gan fod hyn bellach yn cael ei fonitro gan y carchar. Er bod y defnydd wedi cynyddu, mae'n dal yn isel gyda defnydd cyfartalog o 55% yn 2022 yn codi i 66.7% ym mis Awst 2023. Gwneir defnydd llawn o Adroddiadau Teledu Cylch Cyfyng ac UoF lle nad oes deunydd fideo BWC ar gael yn ogystal â phan fydd ar gael. Fodd bynnag, ar rai adegau, nid yw hyn bob amser yn cynnwys y digwyddiad yn llawn, yn dibynnu ar leoliad, a gall leihau'r gallu i glywed unrhyw ryngweithio geiriol a dad-ddwysáu.

**4.5 Atal eitemau anghyfreithlon**

**4.5.1** Cafwyd cynnydd parhaus yn nifer y carcharorion y canfuwyd eu bod o dan ddylanwad sylweddau, sylweddau seicotig yn bennaf, yn ogystal ag eitemau anghyfreithlon a ganfuwyd drwy chwilio celloedd gan gynnwys paraffernalia cyffuriau, ffonau symudol ac ati.

**4.5.2** Mae'r carchar bellach wedi sefydlu grŵp sylweddau anghyfreithlon i nodi sut y gallant atal eitemau o'r fath rhag dod i'r carchar a sut y gellir dod o hyd iddynt pan fyddant yn y carchar. Mae mwy o chwiliadau wedi bod ar gyfer staff ac ymwelwyr a chynnydd yn nifer y chwiliadau celloedd gan dîm chwilio penodol. Ar ben hynny, mae cyflenwad llawn o gŵn ar y safle, mae sganwyr corff ar waith ac mae ymweliadau'n cael eu monitro. Mae lefel y cyffuriau sy'n cael eu canfod a'r carcharorion sydd dan ddylanwad hefyd wedi cael effaith ar dîm Dyfodol a gofal iechyd y mae eu llwyth gwaith wedi cynyddu oherwydd faint o gymorth maen nhw'n ei gynnig.

**4.5.3** Sylwodd y Bwrdd ar nifer o ddyfarniadau (gwrandawiadau disgyblu sy'n cael eu cynnal gan Lywodraethwr carchar os amheuir bod carcharor wedi torri rheolau'r carchar) lle dilynwyd y broses briodol, ac y canfuwyd eu bod yn deg ac yn gefnogol i'r unigolyn, yn ogystal â sicrhau bod camau cywir yn cael eu cymryd. Roedd tuedd ar i fyny o 23.4% yn nifer y dyfarniadau a gynhaliwyd, o 1,651 yn 2022, i 2,038 yn y flwyddyn adrodd hon. O'r dyfarniadau a gwblhawyd eleni, profwyd 40%. O'r 57 achos a gyfeiriwyd at y Dyfarnwr Annibynnol (sy'n Farnwr Rhanbarth), profwyd 26 (53%), gan arwain at ychwanegu 200 o ddiwrnodau ychwanegol at ddedfrydau.

## 5. Triniaeth deg a dyngarol

### 5.1 Llety, dillad, bwyd

**5.1.1. Roedd gwead ffisegol y carchar yn dal i achosi anawsterau gyda chwynion mynych bod yr adenydd yn rhy boeth neu'n rhy oer yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn.** Weithiau nid oedd dŵr poeth ar gael ar gyfer cawodydd. Roedd hyn yn digwydd ar y rhan fwyaf o'r adenydd ar wahanol adegau, er bod adain F heb ddŵr poeth am dros wythnos, ac roedd y gawod ar gyfer y bobl hynny ag anableddau, ar adain F, yn segur am dros fis ym mis Ionawr 2023. Mae'r Bwrdd yn deall bod oedran y carchar yn ei gwneud yn anodd cynnal y systemau ac, weithiau, cael rhannau newydd.

**5.1.2** Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd roedd problem gyda llygod mawr. Gosodwyd trapiau o amgylch yr ardaloedd allanol a chafodd y draeniau eu glanhau, ac erbyn diwedd mis Mai roedd yn ymddangos bod y broblem wedi lleihau. Yn anffodus, erbyn diwedd y flwyddyn adrodd roedd problem gyda llygod yn y carchar. Roedd y rhan fwyaf o'r adenydd, y gweithdai a'r neuadd ymweliadau wedi gweld plâu. Unwaith eto, mae'r rheolwr plâu yn ymweld yn aml i geisio cadw'r broblem dan reolaeth.

**5.1.3** Nid yw'r broblem gyda phla yn cael ei helpu gan faint o sbwriel sy'n cael ei daflu allan o rai o'r celloedd weithiau. Er gwaethaf hyn, mae staff y carchar, glanhawyr a charcharorion ar ddyletswyddau ailgylchu yn gweithio'n galed i gadw'r adenydd a'r tir yn lân a heb sbwriel.

**5.1.4** Mae'r rhan fwyaf o'r adenydd yn y carchar wedi cael eu hadnewyddu. Yn anffodus, cafodd y cyllid ei atal yn gynharach yn 2023 gan ddod â'r rhaglen adnewyddu i ben. Er gwaethaf hyn, mae'r adenydd, y toiledau a'r cawodydd fel arfer yn cael eu cadw'n lân.

**5.1.5** Fel sy'n wir yn genedlaethol, bu mwy o bwysau ar lety yng Ngharchar Caerdydd gyda chapasiti gweithredol yn dychwelyd i lefelau cyn Covid, ac mae hyn wedi golygu bod yn rhaid i gyfran fawr o garcharorion rannu celloedd. Nid oes gan garcharorion yng Nghaerdydd fynediad at le y tu allan i'r gell i fwyta bwyd. Oherwydd hynny, mewn celloedd a rennir, rhaid i'r ddau ddyn fwyta gyda thoiled a rennir yn y gofod. **Er y gwerthfawrogir bod y safle yn ei gwneud yn anodd newid problemau o'r fath, nid yw'r Bwrdd yn teimlo bod hyn yn dderbyniol.**

5.1.6 Derbyniodd y Bwrdd rai cwynion am fwyd, yn enwedig ynghylch maint dognau ac anghenion dietegol, ond roedd y prydau hynny a brofwyd gan aelodau'r Bwrdd o ansawdd rhesymol. Cafodd y gegin rai problemau o ran archebu bwyd tua diwedd 2022 gydag amnewidion yn cael eu hanfon. Achosodd hyn rai anawsterau i'r carcharorion hynny a dderbyniodd y bwyd a amnewidiwyd, a hysbyswyd y Bwrdd bod hon yn broblem genedlaethol.

### 5.2 Cadw ar wahân

5.2.1 Yn gyffredinol, nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon sylweddol am arferion gwahanu yng Ngharchar Caerdydd. Fel y nodwyd, mae defnyddio UoF wrth symud carcharorion i CSU wedi cael ei wneud yn broffesiynol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, heb ddigwyddiad mawr. Mae ymweliadau dyddiol gan lywodraethwyr, caplaniaeth a gofal iechyd ac ymweliadau rheolaidd gan aelodau'r Bwrdd yn cael eu cynnal yn briodol.

**5.2.2** Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi bod yn dyst uniongyrchol i ddau achos o ymddygiad amhriodol gan staff y ddalfa a adroddwyd i'r Llywodraethwr. Gweithredwyd ar y ddau; yn yr achos cyntaf derbyniodd yr unigolyn yr hyfforddiant angenrheidiol ac yn yr ail achos, atgyfnerthwyd yr angen am broffesiynoldeb.

### 5.3 Perthynas staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

**5.3.1** Yn gyffredinol, mae'r berthynas rhwng staff a charcharorion yn dda. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r gwasanaeth carchardai wedi colli cyfran o swyddogion profiadol ac nid yw Carchar Caerdydd yn eithriad. Er gwaethaf hyn, mae'r carchar yn un o'r carchardai sy'n perfformio orau yn y wlad o ran cadw staff. Yn ôl y disgwyl, mae swyddogion dibrofiad newydd yn cymryd peth amser i ymsefydlu ac, yn anffodus, mae rhai o'r newydd-ddyfodiaid hyn hefyd wedi gadael y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd wedi cael gwybod mai un rheswm dros hyn efallai oedd dychwelyd i'r drefn arferol ar ôl cyfyngiadau Covid a arweiniodd, er bod hynny i'w groesawu, at newid yn y profiad o'r cyfyngiadau symud i swyddogion mwy newydd.

**5.3.2** Mae nifer y sesiynau 'gweithio allweddol' dyddiol wedi cynyddu ers mis Awst 2022 pan oedd prinder staff yn golygu mai anaml yr oedd y niferoedd yn uwch na'r arddegau isel. Er gwaethaf hyn, nid oedd llawer o dystiolaeth bod gwaith allweddol yn gweithio'n effeithiol i gefnogi adsefydlu dynion. Roedd y staff a'r carcharorion y mae'r Bwrdd Rheoli Annibynnol wedi siarad â nhw yn cytuno bod gweithio allweddol yng Ngharchar Caerdydd yn dal yn ddigyswllt ar hyn o bryd. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg parhad mewn gwaith allweddol yn ystod y cyfnod yn y carchar. Wrth i garcharor symud o un adain i'r llall, mae ei weithiwr allweddol yn newid i swyddog gwahanol gan nad yw'r gweithiwr allweddol gwreiddiol yn gallu ymweld â gwahanol adenydd ar gyfer gwaith allweddol. Yn ôl ein harolwg, ychydig sydd wedi nodi bod eu gweithwyr allweddol yn ffynhonnell bwysig o gymorth ynghylch adsefydlu. **Felly, mae gwaith allweddol yn dal yn destun pryder i'r Bwrdd.**

### 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

5.4.1 Cyhoeddwyd Polisi Cydraddoldeb newydd ym mis Gorffennaf 2023. Tua diwedd y flwyddyn adrodd, roedd newid yn rhai o arweinwyr y carchardai a oedd yn goruchwylio gwahanol feysydd amrywiaeth. Aeth y cyfnod pontio rhagddo'n ddidrafferth, gyda brwdfrydedd ac angerdd yn cael ei ddangos sy'n galonogol, a gall hynny ond fod yn rhywbeth cadarnhaol i'r rhai yr effeithir arnynt. Mae cymheiriaid cydraddoldeb ar bob adain i helpu a chynghori.

**5.4.2** Mae gan bob fforwm carcharorion eitem agenda ar amrywiaeth a chynhwysiant lle gellir uwchgyfeirio a datrys unrhyw faterion yn gyflym. Cynhelir fforymau nodweddion gwarchodedig penodol (fforymau PC) yn rheolaidd ar gyfer:

- Carcharorion ifanc (18-25 oed)
- Carcharorion anabl
- Carcharorion LGB
- Carcharorion trawsryweddol (gan gynnwys rhywedd yn fwy cyffredinol lle bo hynny'n berthnasol)
- Carcharorion o leiafrifoedd ethnig
- Carcharorion Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Carcharorion sy'n wladolion tramor

- Carcharorion â phrofiad o ofal
- Carcharorion sy'n siarad Cymraeg
- Carcharorion sy'n cael problemau'n ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth neu briodas a phartneriaeth sifil

5.4.3 Mae sawl carcharor trawsrywiol wedi cael eu lleoli yng Ngharchar Caerdydd yn ystod y flwyddyn hon. Mae rhai o'r carcharorion hyn ar adenydd cyffredinol ac mae rhai ar B1 sy'n darparu cymorth ychwanegol i garcharorion agored i niwed. Ar ôl cyrraedd y carchar, bydd yr holl garcharorion trawsryweddol yn cael eu gweld gan y swyddog cydraddoldeb ac, o fewn 14 diwrnod, gan lywodraethwr. Cyflwynwyd taflen wybodaeth drawsryweddol ddefnyddiol ym mis Ionawr 2023 ac mae'n cael ei darparu i garcharorion ar ôl iddynt gyrraedd.

**5.4.4** Mae cyfarfodydd fforwm misol lle mae nifer o faterion wedi cael eu codi gan garcharorion trawsryweddol sy'n ymwneud â'u profiad yn y carchar. Bu aelod o'r Bwrdd yn monitro fforwm cynhwysiant ac amrywiaeth Cymru er mwyn i garcharorion LGBTQ+ adrodd yn ôl ar eu profiad o Garchar Caerdydd. Roedd 4 carcharor yn bresennol ac roedd y drafodaeth yn agored ac yn eang gyda nifer o awgrymiadau ynghylch gwella profiad carcharorion, yn enwedig o ran cynefino a darparu gwybodaeth. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo bod y diwylliant ymysg carcharorion yn gefnogol ar y cyfan ac er eu bod i gyd wedi cael cefnogaeth gadarnhaol iawn gan rai staff, nid oedd hyn yn gyson a nodwyd **yr angen i wella ymwybyddiaeth ac ymarfer swyddogion.** Mae'r Bwrdd yn credu bod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i wella ymwybyddiaeth ac ymarfer yng nghyswllt materion LGBTQ+, a bydd yn parhau i fonitro hyn.

**5.4.5** Roedd materion penodol a godwyd gan garcharorion trawsryweddol yn cynnwys pecynnau croeso nad oeddent yn cael eu hystyried yn briodol i anghenion. Gofynnodd carcharorion trawsryweddol am yr un pecynnau a ddarparwyd i fenywod sy'n garcharorion a, gydag ymyriad y Bwrdd, mae'r rhain bellach yn cael eu darparu ar ôl cyrraedd Carchar Caerdydd. Er bod carcharorion yn cael taflenni ffreutur ar wahân gyda detholiad o gynnyrch addas a bod ganddynt fynediad at gatalogau ar gyfer eitemau harddwch a dillad, mae'r Bwrdd wedi cael gwybod bod y rhain weithiau'n cymryd amser i gyrraedd ac mae rhai carcharorion yn teimlo bod y cynhyrchion sydd ar gael yn ddrud ac felly'n anfforddiadwy. Ymddengys mai'r unig broblem o ran cyflenwi yw ei bod yn anodd cael esgidiau merched maint mwy.

**5.4.6** Mae'r sefydliad yn dal hyd at 779 o garcharorion, ac mae tua 17% ohonynt o gefndir du, Asiaidd neu leiafrif ethnig. Mae gan Garchar Caerdydd agwedd dim goddefgarwch tuag at ymddygiad hiliol rhwng carcharorion neu wedi'i gyfeirio at staff. Gellir rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad â chymhelliad hiliol drwy'r ffurflen adrodd am ddigwyddiad gwahaniaethu (DIRF); fodd bynnag, yn dibynnu ar y difrifoldeb, gellir hefyd ei drosglwyddo i fesurau ymchwilio eraill, gan gynnwys dyfarniadau neu gyfeirio at yr heddlu. Mae posteri gwybodaeth yn cael eu harddangos ar bob adain sy'n cynnig cefnogaeth ac yn rhoi gwybodaeth. Cafodd Mis Hanes Pobl Dduon gefnogaeth dda, gyda'r carchar yn annog pobl i gystadlu mewn cystadlaethau celf a barddoniaeth drwy gydol y mis. Mae cynrychiolwyr gwladolion tramor ar bob adain ac yn cael eu cefnogi gan arweinydd gwladol tramor. Mae Carchar Caerdydd yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek sy'n craffu'n

annibynnol ar ffurflenni DIRF ac yn ymgysylltu â charcharorion o leiafrifoedd ethnig yn y sefydliad.

**5.4.7** Mae materion anabledd yn cael eu goruchwylio gan y Rhwydwaith Anabledd, Eiriolaeth a Lles (DAWN). Cynhelir cyfarfodydd fforwm bob deufis ar gyfer staff a charcharorion, er bod y Bwrdd yn nodi ar ddiwedd y cyfnod adrodd bod y swydd arweinydd ar gyfer DAWN yn wag. Mae cynlluniau personol gadael mewn argyfwng ar waith a chofnodir addasiadau rhesymol ar C-NOMIS. Mae cell a chawod sy'n ystyriol o anabledd wedi'u hadnewyddu yn adain F, gyda ramp i fynd i mewn i'r adain, ac mae gofal iechyd wedi bod yn rhoi cefnogaeth dda i garcharorion ag anableddau. Mae'r polisi anabledd wrthi'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru. **Unwaith eto, mae'r Bwrdd yn dymuno pwysleisio nad yw hen garchar Sioraidd yn amgylchedd addas nac ymarferol ar gyfer carcharorion ag anableddau neu sy'n hŷn ac a allai fod â phroblemau symudedd.**

**5.4.8** Cynhaliodd LGBTI Pride in Prison and Probation (PIP) gyfarfodydd fforwm rheolaidd ar gyfer staff a charcharorion a chawsant eu cefnogi a'u hannog gan y Llywodraethwr. Gorymdeithiodd swyddogion Caerdydd yng Ngorymdaith Pride Caerdydd a roedd ganddynt stondin yno.

**5.4.9** Cynhelir fforwm cyn-filwyr y dydd Mawrth cyntaf o bob mis ac fe'i cefnogir yn dda gan Gymdeithas Teuluoedd Milwyr, Morwyr ac Awyrenwyr (SAFFA) a Care after Combat.

**5.4.10** Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y carchar yn cynnwys carcharorion sy'n oedolion (83%) gyda 17% yn oedolion ifanc (18-25). Mae'r Bwrdd o'r farn bod digon o gymorth ar gael i oedolion ifanc drwy system gofal dda gyda chymorth gan swyddogion arweiniol, gofal iechyd (gan gynnwys cwnsela), iechyd meddwl, addysg ac elusennau. Mae'r Bwrdd yn croesawu ymrwymiad y Carchar i benodi ac ariannu'r arweinydd pobl ifanc a rhai sydd â phrofiad o ofal, ar lefel Llywodraethwr, gyda chefnogaeth rheolwr troseddwyr yn y carchar, hyrwyddwyr staff a dau gymheiriad carcharorion.

**5.4.11** Cynhelir cyfarfod fforwm bob deufis i roi sylw i unrhyw broblemau mawr y mae carcharorion Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn eu hwynebu. Mae'r amlder hwn oherwydd y nifer isel o garcharorion o'r gymuned hon yng Ngharchar Caerdydd.

**5.4.12** Mae caplaniaeth y carchar yn cynnwys tîm llawn amser gyda mynediad at arweinwyr ffydd sy'n cynrychioli ffydd Fwslimaidd, Protestant, Catholig, Sikh, Bwdhaidd, Dyneiddiol a Phaganaidd, gan roi cefnogaeth, cynnal gwasanaethau, darparu gwersi addysgol a chynnig clust i wrando.

**5.4.13** Mae Carchar Caerdydd yn defnyddio gwasanaethau The Big Word ar gyfer cyfieithu lle bynnag y nodir bod anghenion ieithyddol a darperir cefnogaeth iaith gan addysg hefyd. O ran y Gymraeg, mae llawer o'r posteri adain yn ddwyieithog ac mae rhestr o swyddogion/staff dwyieithog ar gael.

## 5.5 Cwynion

Cyfanswm nifer y cwynion mewnol a dderbyniwyd gan y carchar ar gyfer y flwyddyn adrodd (ac eithrio gofal iechyd a DIRFs) oedd 1,730, o'i gymharu â 1,330 ar gyfer

mis Medi 2021 i fis Awst 2022, cynnydd o 30%. Cydnabyddir y gellid ystyried hyn yn gynnydd cadarnhaol a allai ddangos hyder y carcharorion yn y system gwyno. Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn canolbwyntio ar: faterion staff (140); meddyginiaeth (94); eiddo (63) a'r cynllun cymelliadau (53) sy'n cyd-fynd yn weddol dda â chyfran y ceisiadau a dderbyniwyd gan y Bwrdd Monitro Annibynnol ac sy'n rhoi syniad o'r meysydd y dylai'r carchar fod yn canolbwyntio arnynt. Cafodd 81% o gwynion eu hateb o fewn amserlenni penodol.

### 5.6 Eiddo

Roedd cwynion am golli a thrin eiddo carcharorion wedi hynny yn parhau i gael eu derbyn, gyda 60 o geisiadau i'r Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd, 35 yn cyfeirio at golledion o ganlyniad i drosglwyddo rhwng carchardai a 25 yn sgil symud celloedd yng Ngharchar Caerdydd. **Ni welodd y Bwrdd unrhyw frys gwirioneddol gan y carchar na'r ystâd ehangach na'r Gwasanaeth Carchardai i ddatrys y mater hwn, er bod prosesau ar waith i fynd i'r afael â'r mater.**

## 6. Iechyd a lles

### 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

**6.1.1** Roedd cyfanswm y ceisiadau gofal iechyd i'r Bwrdd yn 62, 28 yn canolbwyntio ar feddyginiaeth/rhagnodi, gyda phryderon pellach ynghylch cael apwyntiad a materion optegol/deintyddol.

**6.1.2** Mae'r Bwrdd yn falch o nodi bod y sefyllfa staffio ym maes gofal iechyd wedi gwella'n sylweddol. Mae'r tîm iechyd meddwl a'r fferyllfa wedi'u staffio'n llawn erbyn hyn, er bod nifer o staff newydd yn dal i fynd drwy'r broses gynefino. Fodd bynnag, mae gan nyrsio 9½ o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn o hyd. Mae hyn yn cael sylw drwy ddefnyddio dull cymysgedd sgiliau tîm cyfan ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, a chynhelir cyfarfodydd sicrwydd rheolaidd gyda'r Llywodraethwr a Chyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Iechyd. **Mae'r oedi cyn gallu cael cliriadau fetio yn dal i gael effaith ar recriwtio llwyddiannus ac apwyntiadau amserol ym maes gofal iechyd.**

### 6.2 Gofal iechyd corfforol

**6.2.1** Mae amseroedd aros wedi gostwng i rhwng 10-13 diwrnod, a gyflawnwyd drwy gyflwyno darpariaeth Meddygon Teulu o Bell ym mis Mawrth 2023, symud i ddarpariaeth GMS y Tu Allan i Oriau ym mis Awst 2023 gan ddefnyddio llinell gymorth CAV 24/7 a chynnal clinigau gofal iechyd cymysg ar 4 allan o 5 bore. Mae arolwg diweddar o gleifion sy'n gweld y meddyg teulu wedi cael ei gynnal a gwelwyd canlyniadau cadarnhaol gan IMB, a sawl un yn dweud "un o'r Meddygon gorau rydw i erioed wedi'i weld". Mae nifer yr achosion o ddiffyg mynychu wedi gostwng o 30% i 11%, yn enwedig mewn clinigau adain.

6.2.2 Mae'n gadarnhaol nad oes amser aros i'r optegydd, sy'n delio â phob apwyntiad mewn ymweliad unwaith y mis. Un gwasanaeth syml, ond effeithiol, sy'n cael ei gynnig yw darparu amrywiaeth o sbectolau darllen os bydd angen hynny ar unrhyw garcharor. Mae'r deintydd yn cynnal 4 sesiwn yr wythnos dros gyfnod o 2 ddiwrnod. Mae'r rhestr aros yn tua 3 wythnos, ond mae 2 apwyntiad ar gyfer pob sesiwn ar gyfer achosion brys. Mae'r gwasanaeth deintyddol yn ystod y flwyddyn

ddiwethaf wedi newid o’r gwasanaeth deintyddol cymunedol i gontractwr preifat sy’n gallu diwallu anghenion carcharorion yng Ngharchar Caerdydd yn well.

**6.2.3** Mae’r Bwrdd yn nodi barn gofal iechyd bod rhai meddyginiaethau penodol yn cael eu gor-bresgripsiynu yn y gymuned sydd wedyn yn cael eu lleihau neu eu cwtogi yn y carchar. Fodd bynnag, o ystyried y pryderon a fynegwyd i ni gan garcharorion yn aml iawn, **mae’r Bwrdd yn argymell bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i sut y gellir lleihau effaith y mater rhagnodi hwn a chefnogi carcharorion yn well o ganlyniad i newid eu meddyginiaeth neu ddod â’u meddyginiaeth arferol i ben.**

**6.2.4** Mae rhaglenni brechu rhag COVID-19 a’r ffliw yn parhau i gael eu darparu yn y carchar ac mae cymorth arall gan gynnwys cwnsela wythnosol ynghylch profedigaeth a chyngor ar ofal lliniarol a materion iechyd eraill yn cael ei ddarparu ar sail ad hoc.

**6.2.5** Mae’r Bwrdd yn deall ei bod yn hen bryd cynnal dadansoddiad o anghenion iechyd, gan fod yr olaf wedi’i gynnal yn 2017. **Mae’r Bwrdd yn deall bod gofal iechyd wedi uwchgyfeirio hyn i uwch reolwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro ac mae’n argymell bod hyn yn cael sylw ar frys.**

**6.2.6** Hoffai’r Bwrdd gydnabod ymdrechion gofal iechyd i sicrhau cais Celfyddydau Elusennol yn 2023 i wella’r mannau aros i gleifion a’r ystafell staff, a gafodd ei ategu gan gyllid gan y carchar.





## 6.3 Gofal iechyd meddwl

**6.3.1** Derbyniodd y tîm iechyd meddwl 160 o atgyfeiriadau bob mis ar gyfartaledd. Mae atgyfeiriadau sy’n cael eu derbyn ar gyfer asesiad yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod a gall gweithiwr ar ddyletswydd y tîm iechyd meddwl sy’n gweithredu rhwng 9am a 4pm, 7 diwrnod yr wythnos, weld atgyfeiriadau brys yr un diwrnod. Ar gyfartaledd, roedd 24 o atgyfeiriadau’n cael eu gwneud bob mis i weld seiciatrydd. Mae’r amser aros am apwyntiad yn dibynnu ar angen yr unigolyn. Asesu ADHD Oedolion yw’r rhestr aros hiraf, sef 23 wythnos ar hyn o bryd, sy’n bryder o ystyried pa mor agored i niwed yw carcharorion o ran delio ag amgylchedd y carchar. Dywedodd y tîm iechyd meddwl fod dedfrydau byr yn gallu golygu nad yw carcharorion yn cael hyd priodol o gymorth.

**6.3.2** Fel y nodwyd, mae’r tîm iechyd meddwl wedi’i staffio’n llawn bron ar ôl cyfnod hir o swyddi gwag. Mae dwy swydd heb eu llenwi o hyd, un ar gyfer ymarferydd iechyd meddwl sylfaenol ac un ar gyfer cwnselydd arbenigol. Mae ychwanegu

ymarferydd iechyd meddwl gofal sylfaenol, therapydd galwedigaethol, nyrs gofal eilaidd a therapydd arbenigol dwysedd uchel wedi dod â dyfnder i'r tîm sydd ond o fudd i driniaeth glinigol y cleifion. Mae cwnsela, rheoli pryder ac ymyriadau eraill yn cael eu cynnig gan y tîm amlddisgyblaethol.

**6.3.3** Yn ystod y cyfnod adrodd, trosglwyddwyd 19 o garcharorion i unedau seiciatrig, a oedd yn debyg i'r nifer a drosglwyddwyd yn y flwyddyn flaenorol. Roedd yr amseroedd aros ar gyfer trosglwyddiadau'n amrywio'n sylweddol, gyda'r cyfartaledd oddeutu 20 diwrnod, a 7 diwrnod ar ei fyrraf. Yn ogystal, cymerodd 4 achos rhwng 2 fis a 7½ mis rhwng atgyfeirio a throsglwyddo tra ceisiwyd lleoliadau arbenigol neu ddiogel iawn. Mae'r carchar yn aros am ganlyniad adolygiad thematig gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, y cymerodd ran ynddo, o achos ac effaith oedi ar gleifion sy'n cael eu cadw yn y carchar sydd angen gofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

**6.3.4 Awgrymodd y tîm iechyd meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe bai swyddogion yn cael rhagor o hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac amrywiaeth i lywio ymateb mwy priodol i garcharorion sydd â chyflyrau iechyd meddwl neu gyflyrau eraill.** Nodwyd hefyd nad oedd yn bosibl i garcharorion gael gafael ar linell gymorth drawsryweddol drwy'r broses PIN ffôn; cododd y Bwrdd Monitro Annibynnol y mater hwn gyda'r Carchar.

### 6.4 Amser allan o'r gell, y drefn

**6.4.1** Yn dilyn y cyfyngiadau a osodwyd mewn ymateb i Covid-19, dychwelodd y drefn a'r trefniadau amser allan o'r gell, yn gyffredinol, i fusnes fel arfer. Ar hyn o bryd, mae amser safonol allan o'r gell ar gyfer pobl nad ydynt yn weithwyr (lefel cymhelliant safonol[3]) yn awr yn y bore ac awr yn y prynhawn, gyda chyfnod ymarfer corff dyddiol o 30 munud. I'r rhai sy'n mynychu lleoliad gweithgaredd a ddyrannir, mae amser y tu allan i'r gell yn 3.5 awr yn y bore a 3 awr yn y prynhawn yn ystod y rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos. Yna, bydd gweithwyr, a'r rheini sydd ar lefel cymhelliant uwch, yn cael 1.25 awr o gyswllt gyda'r nos, ac eithrio ar ddydd Mawrth a dydd Gwener. Ar ddiwrnodau penwythnos, mae'r rhai sydd ar y lefel uwch allan o'u cell yn y bore a'r prynhawn. Ar benwythnosau mae pob dyn allan o'u celloedd am awr o gyswllt (ynghyd ag ymarfer corff yn y bore) yn y bore a'r prynhawn. Hefyd, mae 4 sesiwn ar ddydd Sadwrn a dydd Sul o 1.25 awr i 35 o ddynion fynd i'r gampfa. Mae hyn yn cynnwys amser cawod cyn dychwelyd i'w hunedau.

**6.4.2** Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y drefn hon yn amodol ar agor gweithdai, a bod y lefelau staffio yn ddigonol i hwyluso'r cysylltiad. Yn wir, oherwydd cyfyngiadau'r drefn oherwydd prinder staff yn yr haf, derbyniodd y Bwrdd geisiadau gan nifer o garcharorion yn cwyno am amser allan o'r gell. Wrth ymchwilio, mae'n ymddangos bod hyn wedi digwydd oherwydd cyfathrebu gwael am newidiadau i amserlenni, yn hytrach na llai o amser. Yn dilyn hynny, fe wnaeth y carchar wella'r cyfathrebu hwn ac ni chafodd ceisiadau eu derbyn wedi hynny.

---

[3] Yn y carchar, mae cynllun cymhelliant ar waith, gyda lefelau sylfaenol, safonol ac uwch. Mae carcharorion yn symud i fyny neu i lawr y lefelau yn seiliedig ar ymddygiad, gyda charcharorion lefel uwch yn cael mwy o freintiau.

**6.4.3** Mae rhaglen y gampfa yn cynnig cyfle i bob carcharor fynychu amrywiaeth o sesiynau o leiaf ddwywaith yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys pwysau, pêl-droed, clwb colli pwysau a byw'n iach. Cynhelir cystadlaethau drwy gydol y flwyddyn ynghyd â chefnogaeth ar gyfer diwrnodau dathlu. Eleni, mae'r gwaith o adnewyddu'r man cawod a seibiant wedi gwella'r cyfleusterau i bawb.

**6.5 Adsefydlu cyffuriau ac alcohol**

**6.5.1** Mae Cymorth Adsefydlu Cyffuriau ac Alcohol yng Ngharchar Caerdydd yn cael ei ddarparu gan Dyfodol, mewn partneriaeth â G4S, Adferiad a HMPPS. Mae Dyfodol yn darparu ymyriadau byr ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau lefel isel neu risg isel ac yn cyfeirio at wasanaethau priodol ar gyfer eu hanghenion ar ôl eu rhyddhau. Mae pob carcharor yn cael cyngor ac arweiniad sylfaenol ar gamddefnyddio sylweddau ac yn cael taflen wybodaeth ar leihau niwed. Cynghorir pawb hefyd sut i gysylltu â Dyfodol os bydd angen cymorth arnynt yn ddiweddarach.

**6.5.2** Darperir asesiad llawn a gwaith achos ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau risg uchel neu gamddefnyddwyr sylweddau y mae eu defnydd yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol, yn enwedig y rhai yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel o niwed. Mae hyn yn cynnwys gwaith ychwanegol i leihau niwed a chymell, cysylltu â gofal iechyd i gefnogi'r gwaith o asesu anghenion clinigol, gwaith i sicrhau parhad triniaeth ar ôl rhyddhau neu drosglwyddo. Mae Dyfodol hefyd yn darparu hyfforddiant Naloxone (sy'n gwrthdroi gorddos opioidau yn gyflym) ac yn rhoi cit i gleientiaid ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

**6.5.3** Ar hyn o bryd mae'r cymorth yn cynnwys gwaith grŵp wythnosol a chymorth gan 5 o gymheiriaid sy'n gweithio ar draws y carchar, Alcohol Anonymous, Cocaine Anonymous, Smart Recovery, Aciwbigo, grŵp Ymyriadau Byr ac un-i-un. Cyfanswm nifer y carcharorion ar lwyth achosion Dyfodol am y cyfnod rhwng Awst 2022 a Medi 2023 oedd 2,955.

**6.5.4** Mae Dyfodol yn darparu cyngor ac arweiniad i staff sy'n gweithio gyda phobl sy'n camddefnyddio sylweddau ar lefel isel, yn ogystal ag ymateb i achosion o gamddefnyddio sylweddau a chefnogi staff y carchar i ddelio ag anawsterau cysylltiedig. Mae llwyddiant y gwaith hwn yn seiliedig ar gael ei integreiddio i strwythurau a rhwydweithiau allweddol y carchar i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud ag arbenigedd y sefydliad. Mae'r agwedd hon ar waith Dyfodol wedi dod i fwy o ffocws dros y chwe mis diwethaf gyda'r camddefnydd cynyddol o gyffuriau anghyfreithlon, fel Spice.

**6.5.5** Yn ystod 2023, sefydlwyd yr uned byw heb sylweddau (ISFL) yng Ngharchar Caerdydd ar adain A1. Mae'r Bwrdd yn croesawu'n fawr sefydlu'r Uned hon sy'n cynnig cymorth i garcharorion sy'n dymuno rhoi'r gorau i gyffuriau anghyfreithlon gyda phrofion cyffuriau rheolaidd, cefnogaeth gan gymheiriaid, a chymhellion fel amser ychwanegol yn y gampfa. Mae Dyfodol yn cefnogi ISFL gyda grwpiau wythnosol a sesiynau galw heibio.

**6.5.6** Mae wedi bod yn gadarnhaol gweld tystebau gan garcharorion ar ISFL gan gynnwys cyd-weithiwr cymorth cyffuriau a ddywedodd: "Rydych chi i ffwrdd o'r anrhefn gyda 22 o ddynion eraill sydd eisiau newid. Roeddwn i eisiau newid. Fe wnaeth yr Uned fy helpu i sylweddoli mai'r gwrthwyneb i gyflyru yw cysylltiad. Mae'r Uned wedi fy helpu i weld bod gweithwyr a swyddogion Dyfodol yn mynd yr ail filltir i

helpu’r bechgyn ar yr Uned”. Dywedodd carcharor arall nad oedd wedi bod ar yr Uned ers tro “Rwy’n gweld newid enfawr yn fy hun. Hoffwn ddiolch i weithwyr, swyddogion a bechgyn Dyfodol yn yr Uned sydd wedi fy helpu”.

### 6.6 Sgiliau meddal

**6.6.1** Mae cynllun Gwrandawyr y Samariaid yn gweithredu’n llwyddiannus yng Ngharchar Caerdydd. Cynllun cymorth cymheiriaid sy’n ceisio lleihau hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae Gwrandawyr yn garcharorion gwirfoddol sydd wedi’u dewis a’u hyfforddi’n arbennig sy’n darparu cymorth emosiynol cyfrinachol i’w cymheiriaid sy’n ei chael yn anodd ymdopi neu’n teimlo fel lladd eu hunain. Yn ystod y flwyddyn, clywodd y Bwrdd Monitro Annibynnol yn uniongyrchol gan y Samariaid am lwyddiant y cynllun yng Ngharchar Caerdydd. Mae 19 o Wrandawyr wedi derbyn yr hyfforddiant dwys ac mae 178 o sesiynau wedi cael eu darparu. Mae’r Bwrdd yn deall bod staff newydd yn cael hyfforddiant ar y cynllun Gwrandawyr a ddylai helpu swyddogion i ddelio â cheisiadau gan garcharorion i siarad â Gwrandäwr yn haws.

## 7. Cynnydd ac adsefydlu

### 7.1 Addysg, llyfrgell

**7.1.1** Ar gyfartaledd mae'r mannau sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau pwrpasol wedi bod yn 450 yn mynychu addysg, hyfforddiant galwedigaethol a darparu gwasanaethau hanfodol bob dydd. Mae lle yn yr ystafell ddosbarth a'r gweithdy yn cyfyngu ar rywfaint o hyfforddiant ac mae llawer o gyrsiau'n dal i fod yn orlawn.

**7.1.2** Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd asesiadau addysgol wrth gyrraedd. Roedd y gofyniad ar gyfer rhai cyrsiau, h.y. Railtrack, yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion fod heb unrhyw fath o ddibyniaeth ar alcohol a chyffuriau.

**7.1.3** Mae'r llyfrgell wedi gweithredu drwy gydol y cyfnod adrodd, er bod lefelau staffio wedi effeithio ar ei gweithrediad ar adegau. Yn ogystal â'r brif lyfrgell, mae dwy lyfrgell loeren ar adenydd yn y carchar.

**7.3.4** Yn ystod y flwyddyn adrodd, cynhaliodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM adolygiad mewnol o'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn seiliedig ar ddisgwyliadau Estyn.

Mae'r Bwrdd yn croesawu'r canfyddiadau cadarnhaol cyffredinol, gan nodi bod carcharorion yn gwneud cynnydd da tuag at ennill cymwysterau priodol a herio nodau dysgu, ac yn hollbwysig "datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn symud ymlaen yn effeithiol i gam nesaf eu haddysg, eu cyflogaeth neu eu hyfforddiant yn y carchar, neu y tu allan i'r carchar pan gânt eu rhyddhau". Mae'n werth nodi canlyniadau ar gyfer ESOL (Saesneg ar gyfer siaradwyr Ieithoedd eraill) lle barnwyd bod y ddarpariaeth yn gryf iawn, a bod yr addysgu a arsylwyd yn y maes hwn yn rhagorol. Roedd ymddygiad yn ystod gwersi'n rhagorol, gydag athrawon yn rhagweithiol wrth ddelio ag unrhyw darfu'n gyflym, gan ddangos gofal a chefnogaeth i'w dysgwyr ar yr un pryd.

**7.1.5** Mae'r Bwrdd yn cytuno â chanfyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf y dylai'r Hyb Cyflogaeth fod ar gael i'w defnyddio 5 diwrnod yr wythnos, gan ystyried dewisiadau eraill yn lle oriau craidd yn unig. Mae'r Bwrdd hefyd yn cytuno y dylai cynlluniau i ymestyn ystod a swmp y ddarpariaeth rhifedd a llythrennedd gael eu darparu'n gyflym a dylai carcharorion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gael eu hadnabod yn well a bod eu hanghenion yn cael eu cefnogi'n weithredol.

**7.1.6** Felly, roedd y Bwrdd yn croesawu'n fawr sefydlu Hyb Niwroamrywiaeth ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n canolbwyntio ar gymorth i garcharorion ag amrywiaeth o gyflyrau. Derbynnir atgyfeiriadau o'r sgrinio cychwynnol, y tîm oedolion ifanc, staff amrywiaeth, cynlluniau ymyrraeth a chymorth her, swyddfeydd prawf, iechyd meddwl a charcharu mwy diogel, yn ogystal â hunanatgyfeiriadau. Dywedwyd wrth y Bwrdd bod y gwasanaeth hwn yn orlawn oherwydd anghenion asesedig cyfran fawr o boblogaeth y carchardai, sy'n gyffredin ar draws ystâd y carchardai. Ar unrhyw un adeg roedd 6 dysgwr yn yr Hyb Niwroamrywiaeth yn cael eu cefnogi gan 1 cymheiriad.

**7.1.7** Mae Ymddiriedolaeth Shannon yn darparu rhaglen cymorth i ddarllen sy'n cael ei goruchwylio gan y rheolwr cymorth niwroamrywiaeth yng Nghaerdydd. Mae gan

Ymddiriedolaeth Shannon gymheiriad ar bob adain i gefnogi, a chydlynydd band gwyrdd[4] sy'n cefnogi ym maes addysg, sgiliau a gwaith.

**7.1.8** Mae'r Hyb yn canolbwyntio ar ddysgwyr ag ADY ar gyfer y rheini sydd â lefelau llythrennedd a rhifedd is. Mae'r cymorth ADY a ddarperir yn y carchar yn nodedig, gydag amrywiaeth o gymhorthion gan gynnwys cymhorthion darllen, 20 o lefydd darllen sain, troshaenau lliw, ffontiau mawr, defnyddio offer hygyrchedd cyfrifiaduron personol a chlustffonau sy'n canslo sŵn. Yn ogystal, mae deg Chromebook ar gael i gefnogi dysgu ar adenydd, wedi'u lanlwytho gyda chyrsiau addysg, ymarferion lles a rhaglen ddarllen Ymddiriedolaeth Shannon. Defnyddir yr offer Do-It Profiler i sgrinio ar gyfer niwrowahaniaeth ac mae'n rhoi awgrymiadau, cyngor ac adnoddau i unigolion. Mae bellach yn gynhwysol i ddinasyddion tramor gan ei fod yn cynnwys yr offeryn newid iaith a'r cymorth offeryn sgrinio aeddfedrwydd gyda charfan oedolion ifanc.

### 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

**7.2.1** Roedd gwasanaethau hanfodol y carchar, h.y. y gegin, rheoli gwastraff, golchi dillad a phacio brecwast, yn weithredol drwy gydol y cyfnod adrodd. Y meysydd eraill a oedd yn darparu gwaith oedd glanhawyr y carchar, cynrychiolaeth gymunedau mwy diogel, pencampwyr gwedduster, a chymheiriaid adain. Roedd rhai gweithdai hefyd yn darparu cyflogaeth, fel print ac arwyddion yng ngweithdy tri a siopau'r ffreutur. Yn anffodus, nid oedd modd darparu cyflogaeth ar gyfer yr holl garcharorion a ofynnodd am gyflogaeth, a oedd yn achosi rhwystredigaeth. Roedd gan rai carcharorion hefyd gyfyngiadau diogelwch mewn ardaloedd lle nad oeddent yn gallu gweithio. Roedd hyn wedi gwella wrth i ddiogelwch agor canllawiau'r ardal ar gyfer gweithio.

**7.2.2** Yn ystod y cyfnod adrodd roedd yr hyb cyflogaeth yn cynnig cyfle i garcharorion, gyda 12 wythnos neu lai o'u dedfryd i'w bwrw, fynychu cwrs cyflogaeth wythnos o hyd, gan eu galluogi i lunio CVs, mynychu hyfforddiant sgiliau cyflogadwyedd a gwneud cais am swyddi allanol cyn eu rhyddhau.

**7.2.3** Parhaodd yr adran addysg a hyfforddiant i gynllunio ar gyfer agor rhagor o weithdai a hyfforddiant. Hysbyswyd y Bwrdd bod pob cwrs Railtrack/Track Safe yn orlawn. Mae'r cyrsiau leinio waliau sych a CSCS (Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu) hefyd yn llawn. Mae'r tri yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig ar gyfer cael gwaith. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer efelychydd gyrru, a fydd yn darparu profion gyrru theori ar gyfer bysiau a thryciau fforch godi.

**7.2.4** Mae cysylltiadau â chyflogwyr allanol yn parhau i wella ac yn cynnwys olrhain cynnydd carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau gyda chyflogwyr mawr. Nodir bod hyfforddiant a darpariaeth sy'n arwain at gyflogaeth yn cael eu gyrru gan y farchnad ar hyn o bryd a'u hariannu yn unol â hynny, ond bod y Carchar yn mapio'r galw yn y farchnad ac yn ymateb yn hyblyg lle bynnag y bo modd.

**7.2.5** Mae cymwysterau cydnabyddedig yn dal yn rhan bwysig o'r cynnig sgiliau hyfforddi. Mae'r gweithdy lletygarwch yn cynnig cymhwyster mewn ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch yn y gweithle a chyflwyniad i'r diwydiant lletygarwch. Mae'r gweithdy aml-gyfrwng yn cynnig cymwysterau mewn dylunio posteri, gweithio gyda'r

[4] Carcharor sydd â mwy o ymddiriedaeth a symudiad yn ei swydd.

cyfryngau, sgiliau ffotograffiaeth, Microsoft Word a PowerPoint. Petai cymhwyster lefel uwch yn cael ei gynnig, h.y. Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol, byddai'r cyfle cyflogaeth yn cynyddu. Dylai hyn fod yn nod allweddol ar gyfer pob carchar yn y DU, er bod y Bwrdd yn deall ei bod yn anodd darparu hyn mewn sefydliad sydd â nifer uchel o garcharorion ar remand a dedfrydau byr.

**7.2.6** Mae 'Brocer cyflogaeth rhwydwaith dyfodol newydd' i Gymru yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau cyfleoedd ar gyfer cyfweliadau a lleoliadau i garcharorion. Mae'r hyb cyflogaeth yng Ngharchar Caerdydd wedyn yn adolygu'r meini prawf i baru carcharorion â darpar gyflogwyr. Rhwng mis Chwefror a mis Awst 2023, ar gyfartaledd roedd 10 cynnig cyflogaeth yn cael eu gwneud bob mis i garcharorion Caerdydd. Mae tystiolaeth dda bod cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r sgiliau y mae dynion yn eu datblygu yn y gweithdai. Er enghraifft, roedd dynion a gwblhaodd y CSCS tra oeddent yn y ddalfa yn cael cynnig swydd yn y diwydiant adeiladu a chynigwyd swyddi i 11 o ddynion a gwblhaodd y cwrs NVQ Leinio Sych drwy gyflogwr penodol. Mae gan y cwrs toi gysylltiadau da â chyflogwyr hefyd; ac mae Starbucks wedi cynnig cyfweliadau i ddynion a oedd yn gweithio yn y gweithdy lletygarwch. Yn ôl y data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Prawf, ar gyfartaledd roedd 17% o ddynion dan eu goruchwyliaeth mewn cyflogaeth 6 wythnos ar ôl eu rhyddhau yn ystod y cyfnod adrodd.

### 7.3 Rheoli troseddwyr, camu ymlaen

**7.3.1** Ar hyn o bryd nid yw Carchar Caerdydd yn rhedeg unrhyw raglenni ymddygiad troseddol gyda mewnbwn i leihau aildroseddu, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar ddarparu addysg a lleoliadau gwaith yn y sefydliad gyda chefnogaeth ychwanegol yr Uned Niwroamrywiaeth.

**7.3.2** Dywedwyd wrth y Bwrdd bod gan boblogaeth y carchar gyfran uchel o garcharorion ar remand yn hytrach na rhai a ddedfrydwyd. O'r rhai a ddedfrydwyd, mae'r rhan fwyaf ohonynt ar ddedfrydau byr o hyd at 2 flynedd neu wedi cael eu galw'n ôl i'r carchar ar ôl torri eu hamodau trwydded. Mae'r rhai sy'n bwrw dedfryd o dros un mis ar bymtheg fel arfer yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau eraill.

**7.3.3** Nid yw'r uned rheoli troseddwyr (OMU) wedi'i staffio'n llawn ac, ar ddechrau'r cyfnod adrodd, roedd gan y Bwrdd rai pryderon ynghylch adleoli staff cystodaeth OMU i ddelio â diffygion mewn adenydd mewn sefyllfaoedd brys, er y gwerthfawrogir bod yr adleoli'n wedi digwydd mewn 3 neu lai o sifftiau mewn mis. Fodd bynnag, yn ychwanegol at y prinder staff cyffredinol, roeddem yn bryderus ynghylch effaith hyn. Yn gadarnhaol, nodwyd o fis Mai 2023 hyd at ddiwedd y cyfnod adrodd roedd yr arfer hwn wedi dod i ben. Dylid nodi bod ceisiadau am reoli dedfrydau a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn adrodd hon wedi cynyddu o 26 i 46 ers y llynedd, er y gallai newidiadau i gymhwysedd Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref fod wedi cael effaith ar y cynnydd hwn.

### 7.4 Cyswllt â theulu

**7.4.1** Dyfarnwyd y contract i Wasanaethau Teulu Invisible Walls ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth yn 2022-23. Mae staff cefnogi teuluoedd yn darparu cyngor a chefnogaeth i garcharorion a'u teuluoedd, gan gynnwys rhedeg yr adran ymweliadau i sicrhau bod cyswllt teuluol yn parhau drwy ymweliadau rheolaidd wedi'u trefnu. Mae'r neuadd ymweld yn cynnwys ardal chwarae meddal fawr, cadeiriau uchel ac offer newid, amrywiaeth o weithgareddau sy'n addas i blant a

Chaffi Y Cwtch. Mae’r gwasanaethau ychwanegol yn cynnwys cysylltu â’r gwasanaethau cymdeithasol, ymweliadau dan oruchwyliaeth, ceisiadau i’r llys teulu, clinig cyfreithiol teuluol am ddim ac amrywiaeth o grwpiau gan gynnwys grŵp Pandas i fabis a Diwrnodau i’r Teulu.

**7.4.2** Mae arsylwadau’r Bwrdd yn dangos bod Invisible Walls yn darparu gwasanaeth gwerthfawr sy’n cael ei werthfawrogi gan garcharorion a’u teuluoedd. Ar ôl y cyfnod cychwynnol o ymgymryd â’r contract ac adolygu’r gwasanaethau presennol, mae Invisible Walls wedi gwneud nifer o newidiadau cadarnhaol i wella profiad y teulu a charcharorion unigol.

**7.4.3** Yn ystod gwyliau’r ysgol, mae Invisible Walls yn cynnal diwrnodau â thema i deuluoedd ar gyfer hyd at 25 o deuluoedd bob sesiwn. Ers mis Hydref 2022, mae saith diwrnod teulu wedi bod, gyda thri arall wedi’u cynllunio ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023. Mae dau o’r diwrnodau teulu wedi cynnwys anifeiliaid, lle mae cwmni allanol, Animals Interactive, wedi dod ag anifeiliaid sydd wedi’u hyfforddi mewn therapi ar gyfer y teuluoedd. Roedd hyn yn llwyddiant ysgubol, gan fod teuluoedd yn gallu dal a bwydo anifeiliaid fel nadroedd, swricatiaid a drewgwn a chael tynnu eu lluniau, a gafodd eu hargraffu ar gyfer y carcharorion a’u teuluoedd.

**7.4.4** Mae Invisible Walls wedi cynnal saith diwrnod llesiant cymunedol, wedi’u targedu at garcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig fel pobl 18-25 oed, pobl â phrofiad o ofal, y rheini sy’n byw ar uned B1 a’r rheini nad ydynt yn cael ymweliadau cymdeithasol. Mae therapydd holistaidd wedi darparu technegau tai chi ac ymwybyddiaeth ofalgar i bedwar carcharor o B1. Nod y sesiwn hon oedd cynnal a gwella iechyd a lles drwy dechnegau Oigong y gallai’r carcharorion eu defnyddio pan fyddant yn dychwelyd i’r adain. Roedd adborth y carcharorion yn gadarnhaol, gyda dau garcharor sy’n rhannu cell yn dweud eu bod yn mynd i ymarfer y myfyrdod gyda’i gilydd gyda’r nos. Cyflwynodd Gwasanaeth Tân De Cymru gwrs ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd i 11 o garcharorion sy’n oedolion ifanc fel rhan o’r rhaglen lles cymunedol. Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar bwysigrwydd diogelwch ar y ffyrdd gan ddefnyddio fideos a thrafodaeth grŵp i rannu profiadau ac anghymell arferion anniogel wrth yrru ac ar y ffyrdd.

**7.4.5** Un pryder penodol i’r Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd oedd y **gwasanaeth ffôn gwael a ddarparwyd gan y Llinell Gymorth Ymweliadau genedlaethol** a gafodd ei chanoli yn 2023 yn Birmingham. Mae’r canoli hwn nid yn unig wedi arwain at oedi a methiannau wrth drefnu ymweliadau gofynnol, ond nodwyd hefyd na ellir darparu gwybodaeth leol am amseroedd a gofynion ymweld â charchardai yn ddigonol drwy’r model Cymru a Lloegr hwn. Mae’r Bwrdd yn nodi nad yw’r carchar ei hun yn ystyried hyn yn fater o bwys gan nad yw’n cael ei godi gan garcharorion drwy gwynion ffurfiol neu drwy ryngweithio cyffredinol neu fforymau carcharorion. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd wedi monitro hyn dros haf 2023 yn dilyn pryderon a godwyd drwy nifer o geisiadau a chafodd ymatebion negyddol iawn gan garcharorion a’u teuluoedd ynghylch pa mor hawdd oedd defnyddio’r gwasanaeth, amseroedd aros gormodol am alwadau a chanlyniadau gwael. Ni fynegwyd pryderon o’r fath am y gwasanaeth trefnu ar-lein yr oedd y Bwrdd yn annog teuluoedd i’w ddefnyddio fel dewis arall.

### 7.5 Cynllunio Ailsefydlu

**7.5.1** Fel rhan o gyllid ‘rhwydwaith Dyfodol Newydd’, agorwyd menter gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, ‘Hyb Gyflogaeth’, ym mis Chwefror 2022, a chynigiodd gwrs tri diwrnod ‘Sgiliau ar gyfer Gwaith’ ar ysgrifennu CV, sgiliau cyfweld, ysgrifennu ceisiadau, ac ati, i ddeg carcharor bob wythnos tan Haf 2023. Yn anffodus, daeth y cwrs i ben wedyn gyda newid mewn rheolaeth, er bod trafodaethau’n mynd rhagddynt am ei ddyfodol. Cafodd cwrs newydd ‘Gweithdy sgiliau gadael’ ei gynnig o fis Medi 2023 ymlaen i garcharorion sydd â 12 wythnos neu lai ar eu dedfryd. Mae’r Hyb Cyflogaeth hefyd yn cefnogi carcharorion sy’n gwneud cais am gyfrifon banc ac IDs fel trwydded yrru a thystysgrif geni.

**7.5.2** Mae’r Adran Gwaith a Phensiynau bellach wedi’i lleoli yn yr un adeilad â’r Hyb Cyflogaeth ac mae’n gweithio’n agos gyda’i rheolwr. Mae atgyfeiriadau at ‘hyfforddwyr gwaith’ yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dod o adsefydlu yn ogystal â phan fydd carcharorion eu hunain yn mynegi pryderon am fudd-daliadau. Ar ben hynny, mae hyfforddwyr gwaith yn mynd ati’n rhagweithiol i chwilio’r system carchardai i ganfod y rheini sy’n nesáu at gael eu rhyddhau, o fewn pythefnos fel arfer. Mae hyfforddwyr gwaith wedyn yn cefnogi carcharorion sy’n gwneud cais am fudd-daliadau a threfnu apwyntiadau gyda'r Ganolfan Waith, yn ogystal â rhoi cyngor ar y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau’r Ganolfan Waith. Mae’r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cefnogi carcharorion i dalu eu costau tai fel rhan o’r Credyd Cynhwysol pan fydd eu dedfryd hyd at 6 mis. Ar gyfartaledd, cyfeirir 10-25 o garcharorion atynt bob mis.

**7.5.3** Mae’r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn rhan o’r cwrs tri diwrnod uchod. Fel rhan o hyn, maent yn addysgu carcharorion am y ffordd orau o ddefnyddio’r Ganolfan Waith i ddod o hyd i waith, e.e. bod yn fwy rhagweithiol wrth dynnu sylw at eu diddordebau, eu sgiliau a’u cymwysterau eu hunain. Roeddent hefyd yn cefnogi carcharorion ar sut i gynnal tenantiaethau. Yn y gorffennol, mae’r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi gwahodd cynrychiolwyr o’r Ganolfan Waith i sesiynau yn y carchar. Mae trafodaethau’n mynd rhagddynt i drefnu i gynghorwyr Cyngor ar Bopeth ymweld â charcharorion i gefnogi’r gwaith o gwblhau ceisiadau am fudd-daliadau. Mae cymheiriaid carchar ar adenydd hefyd yn helpu i lenwi ffurflenni.

**7.5.4** Defnyddiwyd cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau contract gyda Chanolfan Cube ar gyfer y prosiect ‘On Road’. Roedd y gwasanaeth hwn yn darparu ‘prosiect allgymorth drwy'r giât’ i garcharorion sy’n gadael y carchar i ddarparu cymorth parhaus ar ôl cael eu rhyddhau, fel mynd gyda nhw i apwyntiadau pwysig. Defnyddiodd rhwng 90 a 100 o garcharorion y gwasanaeth hwn. Mae’r prosiect hwn bellach wedi dod i ben ond mae disgwyl i brosiect tebyg gyda Byddin yr Iachawdwriaeth ddechrau, unwaith eto gyda chyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**7.5.5** Mae pob carcharor newydd yn cael cyfweliad cychwynnol gan y tîm ailsefydlu a gwneir atgyfeiriadau i lawer o asiantaethau yn y sefydliad a’r gymuned fel ei gilydd, ac yn benodol i ddeiliaid contractau’r Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol, St Giles a’r Forward Trust.

**7.5.6** Mae nifer yr atgyfeiriadau misol wedi cynyddu ers y llynedd, gydag o leiaf 250 o atgyfeiriadau’n cael eu derbyn bob mis (e.e. 260 ym mis Awst 2023). **Er hyn, nid oes digon o staff yn y tîm ailsefydlu** gyda phum aelod o staff yn brin. Mae tri aelod newydd o staff wedi cael eu recriwtio ond roedd rhaid i un ohonynt adael am resymau personol. Mae’r rheolwr ailsefydlu yn adrodd bod y ddau aelod staff newydd arall yn ychwanegiad rhagorol at y tîm, a recriwtiwyd swyddog gweinyddol newydd

hefyd. Yn ystod pandemig Covid-19, recriwtiwyd cynghorwyr cymheiriaid i helpu gyda chyfweliadau cychwynnol, ond mae hyn bellach wedi dod i ben.

**7.5.7** Cyflwynwyd strwythur newydd ym mis Mehefin 2021 yn ystod pandemig Covid-19 lle cafodd y tîm ailsefydlu ei symud o St Giles i'r Gwasanaeth Prawf. I ddechrau, oherwydd y trafodaethau TUPE gofynnol, roedd problemau yn ymwneud ag eglurder rolau a chyfrifoldebau. Fodd bynnag, mae'r rheolwr ailsefydlu yn dweud nad oedd y materion hyn wedi effeithio ar y carcharorion ac mae'r tîm yn cydweithio'n dda. Cadarnhaodd St Giles fod y cyfathrebu â'r tîm ailsefydlu a'r carchar wedi bod yn gadarnhaol.

**7.5.8** Mae St Giles yn derbyn atgyfeiriadau gan weithwyr achos ailsefydlu o'r cyfweliad cynefino os yw anghenion carcharorion yn cyd-fynd yn dda â'u darpariaeth. Yn Ne Cymru, mae'r sefydliad yn cynnig hyd at dair sesiwn yn y carchar i garcharorion a gyfeirir dan y llwybr 'cynhwysiant cymdeithasol', a hyd at ddeg sesiwn yn gyffredinol gan gynnwys sesiynau y tu allan i'r carchar ar gyfer carcharorion ag anghenion cymhleth. Yn ystod y sesiynau hyn, cynigir amrywiaeth eang o gymorth gan gynnwys paratoadau ymarferol ar gyfer gadael y carchar, fel canfod anghenion o ran tai, budd-daliadau ac iechyd, a gwneud atgyfeiriadau priodol. Mae gwaith gyda charcharorion ynghylch eu hanghenion emosiynol, fel delio â phryder a sbardunau, cynnal perthynas iach ag eraill, ac ati, hefyd yn cael ei wneud.

**7.5.9** Yn dilyn y model gweithio llwyddiannus yng Ngharchar Abertawe, mae staff St Giles yn cael hyfforddiant allweddol yng Ngharchar Caerdydd er mwyn iddynt allu cwrdd â charcharorion ar adenydd. Yn flaenorol, roeddent yn cwrdd â dynion fel ymwelwyr cyfreithiol. Ar hyn o bryd, cyflogir 12 o aelodau staff ar draws De Cymru a Gwent ac mae dwy swydd wag. Bydd pedwar aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant allweddol yn y pen draw i ymweld â Charchar Caerdydd. **Mae oedi hir yn y broses fetio wedi bod yn broblem wrth recriwtio ar gyfer St. Giles ac ailsefydlu.**

**7.5.10** Dim ond un gweithiwr ymyriadau tai ar gyfer Forward Trust sydd wedi'i leoli yn y carchar, ac mae ganddo lwyth achosion o oddeutu 60 o garcharorion ar y tro. Oherwydd capasiti isel, nid yw Forward Trust yn derbyn carcharorion ar remand ar eu llwyth achosion ar hyn o bryd. Derbynnir tua 10-15 o atgyfeiriadau bob mis ac mae tua 90% o'r rhain yn rhai 'heb gartref sefydlog'. Mae ffurflenni cais "Awdurdod lleol Cymru Gyfan – Cymorth gyda thai i bobl sy'n gadael y carchar" yn cael eu llenwi ar gyfer pob ardal (ac eithrio Rhondda Cynon Taf sydd â'u ffurflen eu hunain). Fodd bynnag, mae'n anodd gwybod beth yw canlyniad y ceisiadau hyn h.y. a wneir apwyntiadau gyda charcharorion neu a ydynt yn mynychu. Ni all carcharorion sy'n wladolion tramor nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus gael cymorth gan awdurdodau lleol, felly mae Forward Trust yn edrych ar ffyrdd eraill o'u cefnogi gyda thai. Nid yw'r rhan fwyaf o garcharorion y tu allan i'r ardal yn cael eu cefnogi gan Forward Trust ar hyn o bryd, ond yn hytrach maent yn cael cefnogaeth tai drwy'r Gwasanaeth Prawf.

**7.5.11** Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch recriwtio aelod arall o staff y Forward Trust. Ceir hefyd un neu ddau Weithiwr Ymyriadau Tai ym mhob sir yn y gymuned a all helpu carcharorion i fynychu apwyntiadau.

**7.5.12** Cynhaliodd y Bwrdd Monitro Annibynnol arolwg o 37 o garcharorion gyda llai nag wythnos ar ôl ar eu dedfryd rhwng mis Mai a mis Awst 2023. Dywedodd 23 o

ddynion fod ganddynt rywle i aros ar y noson gyntaf, tra bod 14 wedi ymateb yn negyddol. O'r 23, roedd 12 yn aros gyda'u ffrindiau neu eu teulu, roedd gan bedwar dŷ wedi'i ddarparu gan gymdeithas dai neu gyngor, roedd dau yn rhentu'n breifat a dim ond llety dros dro oedd gan bump. O'r 14 dyn heb lety, atebodd 11 nad oeddent yn gwybod ble i fynd a dywedodd tri y byddent yn rhoi cynnig ar lety dros dro drwy fynd i 'Opsiynau Tai' neu hostel Byddin yr Iachawdwriaeth. Yn ôl Forward Trust, mae'r 'Gwasanaeth Llety Cymunedol' yn dal i fod yn orlawn, gyda dim ond ychydig o welyau ar gael ym mhob un o'r tair haen sy'n darparu ar gyfer carcharorion sydd â lefelau gwahanol o risg. Hefyd adroddwyd am broblemau sy'n ymwneud â'r amserlen atgyfeirio i ryddhau. **Oherwydd bod rhai carcharorion gael eu cyfeirio at Forward Trust gyda llai nag wythnos ar ôl cyn eu rhyddhau, mae'r Bwrdd yn nodi ei bod yn anodd iawn trefnu tai ar eu cyfer. Felly, mae tai ar ôl rhyddhau yn dal yn destun pryder i'r Bwrdd.**

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

### Ystadegau'r Bwrdd

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymell | **14** |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | **6** |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | **12** |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | **345** |

### Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd flaenorol | Blwyddyn adrodd bresennol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | **23** | **25** |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cynllun cymhellion, sancsiynau | **24** | **31** |
| C | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys crefydd) | **9** | **2** |
| D | Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser y tu allan i'r gell | **52** | **29** |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | **49** | **38** |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | **26** | **24** |
| F | Bwyd a cheginau | **11** | **7** |
| G | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol | **56** | **62** |
| H1 | Eiddo yn y sefydliad | **24** | **25** |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn cyfleuster arall | **18** | **35** |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau | **21** | **19** |
| I | Rheoli dedfryd, gan gynnwys cyrffyw cyfyngu i'r cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | **26** | **46** |
| J | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio | **49** | **36** |
| K | Trosglwyddiadau | **14** | **11** |
| L | Amrywiol | **47** | **50** |
| L1 | System gwyno | **12** | **21** |
| | Cyfanswm y ceisiadau | **461** | **461** |

# Atodiad A

## Rhestr o ddarparwyr gwasanaethau

Mae amrywiaeth o ddarparwyr cyhoeddus a masnachol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn y carchar. Caiff gwasanaethau iechyd eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac fe gaiff dysgu a sgiliau eu darparu gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru, ond cânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac fe gyflawnir y gwaith cynnal a chadw ar y safle gan Amey.

- Gwasanaethau hebrwng: Serco
- Camddefnyddio sylweddau: Dyfodol
- Cwnsela mewn profedigaeth: City Hospice
- Canolfan ymwelwyr: Invisible Walls
- Cymorth ailsefydlu: St Giles, Forward Trust
- Cynllun Gwrandawyr: Y Samariaid
- Cymorth llythrennedd: The Shannon Trust

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle’r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn imb@justice.gov.uk